# GALARNAD,

ER

COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR

## BARCH. MORGAN EFANS,

O DY YN Y CWM, BRYCHEINIOG,

*Gweinidog y Bedyddwyr gynt yn y Pentref Newydd, Swydd Faesyfed, ac yn ddiweddaf o Bant y Celyn, Brycheiniog;*

Yr hwn a ymadawodd â'r Byd hwn, Awst 17, 1822, yn 89 oed.

GAN

ISAAC THOMAS,

UN O DDIACONIAID PANT Y CELYN.

ABERTAWY:

Argraffedig yn Swyddfa Seren Gomer, gan J. Harris.

—ooo—

1822.

W935-S.36

1 CHWI, frodyr a chwiorydd,
Sy'n aros yn nhŷ Duw,
Rho'wch glust o ymwrandawiad
I'r newydd ddaeth i'm clyw;
Am un o'r dewr fugeiliaid,
Fu'n wrol yn ei ddydd,
Gyrhaeddodd ben ei yrfa,
Gan gadw'r gywir ffydd.

2 Yr enwog MORGAN EFANS,
Gwr adnabyddus iawn,
Gan amryw sydd yn Nghymru,
A'u clywsant 'nol ei ddawn;
Yn dweyd am niwed pechod,
A'i ganlyniadau cas,
Mewn mesur am ogoniant,
A gwir fuddioldeb gras.

3 Bu yma hir flyneddau
'N blaenori yn nhŷ Duw,
Yn eglwys Pant y Celyn,
Yr ardal 'roedd yn byw;
Nes daeth y wŷs i'w alw,
O'r anial dyrys maith,
'Fwynhau'r dragwyddol wobr
Ag oedd ar ben y daith.

4 Pan oedd ein Harglwydd Iesu
Yn ddeunaw cant o'i o'd,
A dwy ar hugain rhagor,
Er pan ddaeth îs y rhod,
Ca'dd angeu'i awdurdodi
I dòri EFANS 'lawr,
'Doedd modd gan neb ei atal
Pan ddaeth i fyny'r awr.

5 Bu chwechdeg o flyneddau,
Ac hefyd rai yn hwy,
'N pregethu 'fengyl Iesu,
A rhinwedd mawr ei glwy';

Gorphenodd ar ei yrfa,
Yn wythdeng mlwydd a naw,
A phump o fisoedd hefyd,
Cyn myn'd yr ochr draw.

6 Bu Efans dra defnyddiol
I'r eglwys tra fu byw,
Er bod yn lled fethedig,
Tramwyai i dŷ Duw;
A d'wedai yn ddifrifol,
Wrth bawb f'ai yn y lle,
'Ochelyd byw ar hanes
Am bethau mawr y ne'.

7 Fe dd'wedai wrth y dynion
Ag oedd yn trigo'n ol,
Am ochel uffern obry,
A gwae'r morwynion ffol;
Cynghorai'r edifeiriol,
F'ai'n rhodio'n wyneb drist,
I lefain am faddeuant
Yn haeddiant Iesu Grist.

8 Y Sabbath bu ddiweddaf
Yn sefyll dros ei Dduw,
A hwnw'r Sabbath olaf
Ond un tra fu ef byw;
Gosodai 'maes y golled
O wadu Iesu Grist,
Mae rhan y dynion hyny
Fydd y trueni trist.

9 Troi'i lais yr ochr arall,
A d'wedai'n addfwyn iawn,
Wrth wir addolwyr Iesu,
Caent hwy wahoddiad llawn,
A'u derbyn mewn i'r deyrnas
Addawodd Brenin nef,
Uwch cyrhaedd neb gelynion,
'Nol tirio'n lân i dref.

10 Yn fuan ar ol hyny
Fe ga'dd ei daro'n sỳn,
Dan gystudd angeu creulon,
Yn gweithio arno'n llyn;
A'i babell bridd yn gwaelu,
Ryw radd o awr i awr,
Nes cael ei ddodi'n llonydd,
I orwedd dan y llawr.

11 Pan oedd ar wely cystudd,
Ca'dd lawer iawn o flas,
Adgoffa'r ysgrythyrau,
A dweyd am rinwedd gras;
Cynghorai bawb 'weddio,
Mewn taer ddymuniad hy,
Yn enw'r Arglwydd Iesu,
Ein Harch-offeiriad ni.

12 Ni gawsom le i feddwl,
Wrth edrych yn ei wedd,
Pan ydoedd yn wynebu
Ar gyfyng byrth y bedd,
Ei fod ef yn hyderu
Yn gadarn ar ei Dduw,
Yr hwn ag oedd yn arddel
Tra bu ef yma'n byw.

13 Pan oedd yn lled flinderus,
A'i ana'l yn byrhau,
'Rwy'n cofio rhai o'r geiriau
A glywais e'n goffhau;
Ei fod yn caru diolch
Yn ufydd i'r Arglwydd,
A'i foli ef yn wastad,
A hyny â chalon rwydd.

14 Wrth gofio am ei eiriau,
A gwel'd ei le yn wag,
'Rwy'i weithiau, dan och'neidio,
Yn barod gwaeddi—'Nhad;

Mae'n drwm i ni ymranu,
  A minnau'n aros 'nol,
O Dduw, gwna finnau'n barod,
  Gael 'hedeg i dy gol!

15 Pan byddwy'i'n dechreu meddwl
  Am weision Iesu cu,
Rhai glywais yn pregethu
  Yn aml gyda ni,
Yn awr sydd wedi'n gadael
  Ni yma ar y llawr,
A myn'd trwy afon angeu
  I'w hetifeddiaeth fawr:

16 Yn mhlith y rhai'n mi allaf
  Adgofio am *Rees Jones*,
Fu'n cydlafurio ag EFANS,
  Tra parodd dyddiau'i oes;
A dau o'i feibion yntau,
  *Josiah* a *John*, fu'n hy
A gwresog yn y winllan,
  Nes cau'u geneuau cu.

17 Rho'w'd cyrff rhai'n i gydorwedd,
  Yn yr un fynwent gau,
'Rwy'n credu fod eu heneidiau
  Fry yn cydlawenhau;
Cânt eto gydgyfodi
  I'r làn o lwch y bedd,
I gyd-deyrnasu â'r Iesu,
  Yn hollol ar ei wedd.

18 Wrth redeg yn fy meddwl,
  O'r dwyrain faith i'r dê,
A gwel'd fod gweinidogion
  Yn dianc tua thre',
'Rwy'n teimlo angen llefain
  Ar Frenin mawr y ne',
I anfon gweithwyr newydd
  I'r winllan yn eu lle;

19 Y rhai fo'n offerynau
Defnyddiol yn ei law,
I argyhoeddi miloedd
Sydd eto yn ddifraw,
A dyfrhau'r planigion
A blanodd ef ei hun,
A phorthi gweiniaid Sion
A llaeth a melys win.

20 Bu EVANS yn llafurus
Ac yn ymdrechol iawn,
'Gyflawni'i weinidogaeth,
Foreuddydd a phrydnawn;
Nid mynych byddai'n eisieu
Ar gyrddau yn nhŷ Duw,
Na chwaith yn y gym'dogaeth
Lle'r oedd ef ynddi'n byw.

21 Pan oedd e'n gryf ac heinyf,
Ymdeithiodd lawer iawn,
Trwy amryw siroedd Cymru,
I g'oeddi Crist a'i ddawn,
'N ddigonol o Waredwr,
I'r gwaela' o ddynolryw,
A gaffai'r fraint o gredu,
Tra fyddent yma'n byw.

22 Ymdrechodd i ymdeithio
I gymanfaoedd y saint,
'N flyneddol a thrimisol,
Cyfrifai iddo'n fraint,
Fod yno yn ddefnyddiol
I gario'r gwaith yn mla'n,
Er clod i enw Iesu,
A'i [illegible] diwahân.

23 Nid oedd ef am ymryson,
Na d'wedyd geiriau cas,
Am neb o wir ganlynwyr
Yr Iesu ar y ma's;

Ond rhoddai barch yn wastad,
Yn ufydd iawn o'i fodd,
I bawb f'ai yn pregethu
Efengyl Crist ar g'o'dd.

24 Mae'n bryd im' roddi 'fyny
Fy nhrwm och'neidio ffol,
Ni thâl i mi alaru,
Ni ddaw ef mwy yn ol;
'Madawodd â'n cynteddau,
Ehedodd 'fyny fry,
Uwch daear gron ac wybren,
I blith nefolaidd lu.

25 'Rwy'n meddwl 'nawr yn brysur,
Ei fod yn canu clod,
I'r Iesu 'rhwn a'i carodd,
A'i prynodd cyn ei fod;
Heb ofid mwy i'w flino,
Odd'wrth neb brodyr gau,
Ond gwir fwynhau'r llawenydd,
Sy'n wastad i barhau.

26 O! cofiwn ei gynghorion,
A'r siamplau roddodd e',
Fel eglwys a gweinidog,
I aros yn ein lle;
I beidio llaesu dwylaw,
Ond tynu 'mlaen o hyd,
Ar ol yr hen saint cywir,
Tra fyddom yn y byd.

27 Wrth feddwl am y boreu,
Bydd i'r saint gwrdd yn nghyd,
'Rwy'i weithiau yn hiraethu
Am wel'd y dedwydd bryd;
Ac eto yn pryderu,
Pan elw'i brofi f' hun,
Rhag nad wyf un o'r defaid,
Sy'n eiddo Mab y dyn.

28 Fy ewythr, 'rwy'n terfynu,
Gan orphen hyn o gân,
Ni welai'i'th wedd ond hyny,
Fel gwelais ef o'r bla'n;
Gobeithio cawn gwrdd eto,
Yn ddysclaer fel yr haul,
Yn mhlith y dorf sy'n gwledda
Ar haeddiant Adda'r ail.

29 O! Martha Efans fwynaidd,
Sy'n awr a'th fron yn brudd,
Er colli'th briod natur,
Ymdrecha gadw'r ffydd;
Ymddiried yn yr Iesu,
Mae ef yn addo bod
Yn blaid o hyd i'r gweddwon,
Tra fyddont îs y rhod.

30 Tra fyddom yn rhyfela,
Rhaid cario'r cleddyf glas,
'Does modd i ddiosg arfau,
Tra fyddom ar y ma's;
Er amled yw'n gelynion,
Cawn fuddygoliaeth lawn,
Trwy'r Iesu, 'r hwn fu farw
Ar groesbren un prydnawn.

DIWEDD.

J. Harris, Argraffydd, Abertawy.